
GDA Castell-nedd Port Talbot

# Hunan Werthuso



# Proffiliau Pwnc ar gyfer Ysgolion Cynradd

# Hunan Werthuso

Mae hunan werthuso yn elfen ganolog yn rhaglen wella unrhyw ysgol. At hynny, bydd Fframwaith Arolygu Cyffredin newydd Estyn yn gosod pwyslais cynyddol ar hunan werthuso, ac, o fis Medi 2004, bydd adroddiadau hunan werthuso ysgolion yn fan cychwyn ar gyfer arolygiadau.

Mae hunan werthuso yn caniatáu i athrawon, meysydd pwnc a thimau uwch reolwyr:

- sicrhau cysondeb o ran dysgu ac addysgu;
- nodi cryfderau a gwendidau;
- datblygu targedau a phwyntiau gweithredu i fynd i’r afael â gweithredu;
- pennu datblygiad personol priodol ar gyfer staff;
- darparu tystiolaeth berthnasol ar gyfer rheoli perfformiad;
- cyflawni anghenion y broses arolygu allanol.

Mae rhai ysgolion wedi datblygu gweithdrefnau gwerthuso ysgol gyfan effeithiol iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chaiff hyn ei adlewyrchu o fewn Cynlluniau Datblygu Ysgol gwell a manwl. Yn ogystal, mae gan rai ysgolion weithdrefnau monitro/arsylwi effeithiol sy’n cynnwys uwch staff (a chydlynwyr pwnc). Fodd bynnag, mae’r rhaglenni arsylwi hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar ansawdd yr addysgu yn hytrach na safonau o fewn pynciau. Nid yw hyn yn syndod gan ystyried efallai na fydd profiad arbenigol o bwnc yn bresennol o fewn tîm monitro. Yn ogystal, er y rhoddwyd cryn bwyslais ar arsylwi gwersi mewn rhaglenni hyfforddi e.e. ar gyfer Rheoli Perfformiad, mae wedi canolbwyntio yn bennaf ar ansawdd yr addysgu yn hytrach na safonau pwnc. Credai'r GDA y byddai’n fuddiol i ddatblygiad ysgol petai cydlynwyr pwnc, uwch reolwyr a phenaethiaid yn canolbwyntio ar safonau pwnc o fewn eu gweithdrefnau hunan werthuso.

O ganlyniad i’r sefyllfa uchod, mae'r GDA wedi datblygu cyfres o **broffiliau pwnc hunan werthuso** sy’n caniatáu i staff cynradd bennu safonau ar draws y cwricwlwm yn haws. Seilir y proffiliau ar feini prawf Estyn felly gall ysgolion deimlo’n hyderus eu bod yn defnyddio’r un ymagwedd a safonau ag arolygwyr allanol.

Ni fwriedir i’r proffiliau ddisodli rhaglenni arsylwi gwersi sefydledig, ond yn hytrach redeg ochr yn ochr â hwy e.e. gallai gwersi a arsylwir fel rhan o weithdrefnau Rheoli Perfformiad ysgol gyfrannu at benderfyniadau ar ansawdd addysgu mewn pynciau.

Mae gan y  proffiliau gynllun cymharol syml o’u cymharu â llawer o fodelau hunan werthuso eraill sy’n aml yn ymddangos yn or-gymhleth/or-fanwl i’w defnyddio’n effeithiol, ac sy’n llyncu llawer o amser.

## Defnyddio'r Proffiliau Pwnc

Ceir **4 Proffil Pwnc sylfaenol,** sef:-

1. **Safonau Pwnc**
2. **Effeithiolrwydd Addysgu**
3. **Datblygu Sgiliau Allweddol**
4. **Asesu, Cofnodi ac Adrodd**

Ceir proffil ychwanegol ar gyfer gwerthuso pynciau craidd yn unig ar **Y Defnydd o Ddata**

Hefyd, ceir proffil dewisol ar gyfer Addysg Gorfforol ar **Weithgareddau Allgyrsiol**

Ceir disgrifiadau pwnc syml o fewn y proffiliau sydd wedi'u graddio o 'gwan' i 'ardderchog'.

Gellir defnyddio'r proffiliau gan y cydlynydd pwnc/UDRh er mwyn pennu cryfderau a gwendidau o fewn y maes pwnc hwnnw – sef cyflawni **archwiliad pwnc** mewn gwirionedd.

**Nid oes angen mynd i'r afael â phob pwynt ym mhob proffil pwnc -** efallai na fydd pob un yn berthnasol ym mhob ysgol – ond ceisiwch fynd i'r afael â chynifer o'r meini prawf ag sy'n bosib.

Byddai'n ddymunol petai **pob cydlynydd pwnc yn cymryd rhan yn y broses hon.** Fel hyn, gellir pennu meysydd gwan penodol a gellir cyfeirio amser ac ymdrech tuag at eu gwella yn hytrach na'u treulio o fewn meysydd sydd eisoes yn gryf. Gellir nodi **pwyntiau datblygu/gweithredu** penodol a'u cynnwys o fewn **cynllun datblygu pwnc** y cydlynydd**.** Yna gellir cynnwys y pwysicaf o'r pwyntiau hyn yng **Nghynllun Datblygu'r Ysgol.**

Nid yw'r proffiliau yn cynnwys pwyntiau datblygu manwl a allai fod yn angenrheidiol er mwyn **mynd i'r afael â gwendidau a nodir**. Credai'r GDA mai **staff yr ysgol yw'r bobl orau i ymdrin â chynlluniau ac anghenion manwl ar y lefel hon**. Fodd bynnag, bydd y GDA yn falch o gynnig cyngor a chefnogaeth os bydd angen.

Yn gyffredinol, mae'r Proffiliau Pwnc yn ymgais i helpu a symleiddio'r gweithdrefnau hunan werthuso sy'n cael eu datblygu o fewn ysgolion. Maent yn mynd i'r afael â'r angen i bennu safonau pwnc ochr yn ochr â gwerthuso addysgu o fewn rhaglenni monitro/arsylwi gwersi. Byddant yn ffurfio rhan o brosesau hunan werthuso ehangach yr ysgol fydd yn cynnwys meysydd ysgol gyfan e.e. darpariaeth AAA; Ysbrydol, Moesegol, Cymdeithasol a Diwylliannol; ac agweddau Staffio, Adnoddau a Llety. Gobeithiwn y byddant o fudd i athrawon, cydlynwyr pwnc a thimau uwch reoli.

GDA Castell-nedd Port Talbot

# Proffiliau Pwnc Hunan Werthuso

## Mynegai


1. Celf
2. Dylunio a Thechnoleg
3. Daearyddiaeth
4. Hanes
5. Technoleg Gwybodaeth
6. Iaith (Saesneg a Chymraeg)
7. Mathemateg
8. Cerdd
9. Addysg Gorfforol
10. Addysg Grefyddol
11. Gwyddoniaeth
12. Cymraeg (2il Iaith)